## Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (113)

## Dydd Mawrth, 25 Ionawr 2005

## AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Etholiadau**

**i'r Pwyllgorau**

**a) Cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor Archwilio**
NDM2255 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 8.4 ac 12.1, yn ethol Christine Chapman (Llafur) ac Irene James (Llafur) i'w Bwyllgor Archwilio yn lle Christine Gwyther (Llafur) a Val Lloyd (Llafur).

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**
Dileu enw Christine Chapman (Llafur) a rhoi enw Catherine Thomas (Llafur) yn ei le.

**b) Cynnig i ethol Aelodau i Bwyllgor y Ty**
NDM2253 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Reolau Sefydlog 8.4, 18.4 ac 18.5, yn ethol Jane Hutt (Llafur) i Bwyllgor y Ty yn lle Karen Sinclair (Llafur).

**c) Cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor Deddfau**
NDM2254 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 8.4 ac 11.1, yn ethol Janice Gregory (Llafur), Christine Gwyther (Llafur), Ann Jones (Llafur) a Sandy Mewies (Llafur) i'w Bwyllgor Deddfau yn lle Christine Chapman (Llafur), Jeff Cuthbert (Llafur), Irene James (Llafur) a

Tamsin Dunwoody-Kneafsey (Llafur).

**d) Cynnig i ethol Aelodau i’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
NDM2256 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 8.4 ac 16.2, yn ethol Val Lloyd (Llafur) a Karen Sinclair (Llafur) i'w Bwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Jeff Cuthbert (Llafur) a Sandy Mewies (Llafur).

**e) Cynnig i ethol Aelodau i’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**
NDM2257 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 8.4 ac 15.5, yn ethol Jeff Cuthbert (Llafur) i'w Bwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn lle Christine Chapman (Llafur).

**f) Cynnig i ethol Aelodau i’r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon -** ***Dim cynnig wedi ei gyflwyno***

**g) Cynnig i ethol Aelodau i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**
NDM2258 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 8.4 a 9.1, yn ethol Tamsin Dunwoody-Kneafsey (Llafur), Leighton Andrews (Llafur) a Carl Sargeant (Llafur) i'w Bwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn lle Christine Chapman (Llafur), Brian Gibbons (Llafur) a Lynne Neagle (Llafur).

**h) Cynnig i ethol Aelodau i’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**
NDM2262 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 8.4 a 9.1, yn ethol Christine Chapman (Llafur) i'w Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn lle Leighton Andrews (Llafur).

**i) Cynnig i ethol Aelodau i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**
NDM2259 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 8.4 a 9.1, yn ethol Lorraine Barrett (Llafur) a Sandy Mewies (Llafur) i'w Bwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn lle Tamsin Dunwoody-Kneafsey (Llafur) a Jeff Cuthbert (Llafur).

**j) Cynnig i ethol Aelodau i’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
NDM2260 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 8.4 a 9.1, yn ethol Lynne Neagle (Llafur) a Karen Sinclair (Llafur) i'w Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn lle Ann Jones (Llafur) a Gwenda Thomas (Llafur).

**k) Cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
NDM2261 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 8.4 a 9.1, yn ethol Val Lloyd (Llafur) a Gwenda Thomas (Llafur) i'w Bwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn lle Lorraine Barrett (Llafur) a Tamsin Dunwoody-Kneafsey (Llafur).

**l) Cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio - *Dim cynnig wedi ei gyflwyno***

..............................

## Eitem 2

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Cwestiynau

..............................

**Cwestiwn Brys**
**Janice Gregory (Ogmore):** Will the Minister make a statement on the job losses at the Sony UK sites in Pencoed and Bridgend?. EAQ0063 (EDT)

..............................

## Eitem 3

**Datganiad Busnes**
Y Datganiad Busnes Drafft

..............................

## Eitem 4

Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Lleol Cymru 1996 (Dirymu) 2005 o dan Reol Sefydlog 25 (rhan 1)

NDM2248 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan weithredu o dan Reol Sefydlog 25, Adran 1:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Cynllun Atal Llifogydd Lleol Cymru 1996 (Diddymu) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Rhagfyr 2004.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi pwysigrwydd gwybodaeth leol i Bwyllgor newydd Atal Llifogydd Cymru gyfan a phwysigrwydd cael amrywiaeth daearyddol ymysg y cynrychiolwyr sy'n gwasanaethu arno.

NDM2249 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan weithredu o dan Reol Sefydlog 25, Adran 1:

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynllun Atal Llifogydd Lleol Cymru 1996 (Diddymu) 2005, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Ionawr 2005, ac

a) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Cynllun Atal Llifogydd Lleol Cymru (1996) (Diddymu) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:
i) Y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Rhagfyr 2004
(ii) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 18 Ionawr 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Cynllun Atal Llifogydd Lleol Cymru 1996 (Diddymu) 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

..............................

## Eitem 5

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gofal Dydd (Cymhwyso i Ysgolion) (Cymru) 2005

NDM2250 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gofal Dydd (Cymhwyso i Ysgolion) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2004.

NDM2251 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Gofal Dydd (Cymhwyso i Ysgolion) (Cymru) 2005, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Ionawr 2005, ac

a) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Gofal Dydd (Cymhwyso i Ysgolion) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) Y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2004
ii) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2004.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Gofal Dydd (Cymhwyso i Ysgolion) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**...............................**

## Eitem 6

**Dadl a enwebwyd gan Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

NDM2247 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn egwyddor gofal personol am ddim, fel y'i diffiniwyd gan y Comisiwn Brenhinol, ac mae'n galw ar Brif Weinidog Cymru i roi pwysau ar lywodraeth y DU i ganiatáu i'r Cynulliad bwerau a chyllid i gyflwyno gofal personol am ddim.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**
**(2)**
**(3)+(4)**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Dileu’r cyfan ac yn ei le rhoi:
Yn galw ar Brif Weinidog Cymru i roi pwysau ar lywodraeth y DU i ganiatau i’r Cynulliad bwerau a chyllid i gyflwyno gofal personol am ddim fel y’i diffiniwyd gan y comisiwn Brenhinol.

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu’r cyfan ac yn ei le rhoi:
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn parhau i dderbyn egwyddor gofal personol am ddim, yn y cyd-destun a nodwyd gan y Comisiwn Brenhinol

2. Yn nodi’r camau a gymerwyd gan Weinidogion i gyfleu barn y Cynulliad i Lywodraeth y DU

3. Yn croesawu’r mesurau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi’u cymryd, ac yn bwriadu’u cymryd, i leddfu effaith talu am ofal personol

4. Yn nodi bod yn rhaid ystyried y profiad sy’n dod i’r amlwg yn yr Alban wrth drafod y mater hwn yn y dyfodol.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi methiant Llywodraeth Lafur y Cynulliad i ddylanwadu ar eu cydweithwyr yn San Steffan i weithredu penderfyniad y Cynulliad a oedd yn galw am ofal personol am ddim.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn mynegi pryder ynghylch y diffyg blaenoriaeth y mae Llafur Newydd yn ei rhoi i gynorthwyo pobl hy^n yng Nghymru.

**...............................**

## Eitem 7

Dadl ar y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2

NDM2252 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r camau a geir yn fersiwn ddiwygiedig Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2005 i wella sgiliau ac i helpu mwy o bobl i gael cyflogaeth gynaliadwy.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)+(2)+(4)+(5)+(6)+(7)**
**(3)+(9)**
**(8)**

**Gwelliant**

**1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt cyntaf newydd ac ailrifo'r gweddill yn unol â hynny.
Angen gwella lefelau sgiliau yng Nghymru a mynd i'r afael â lefel hynod isel CMC y pen yng Nghymru o gymharu â Lloegr.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn llinell 1, dileu 'croesawu'r' a rhoi 'nodi'r' yn ei le.

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru) - *Ni ddetholir y gwelliant hwn***

Yn llinell 1 dileu 'croesawu'r' a rhoi 'nodi'r yn ei le.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cynorthwyo pobl ifanc sy'n parhau â'u haddysg ac yn cyfarwyddo Llywodraeth Lafur y Cynulliad i greu Grant Arbennig, i'w weinyddu yn yr un modd â'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, a fydd yn rhoi'r hawl hefyd i'r rhai sy'n cyrraedd eu deunaw oed yn ystod y flwyddyn academaidd 2004/05 i wneud cais am gymorth ariannol.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn condemnio Llywodraeth Lafur y Cynulliad am gyflwyno cynllun gweithredu nad yw'n cydymffurfio â'i pholisi iaith ei hun ac yn methu â bodloni'r gofyn i sicrhau statws cyfartal i'r

Gymraeg a’r Saesneg ar draws pob sector.

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod bod y cyllid a ddyrannwyd i ddatblygu cymorth Sgiliau Sylfaenol yn annigonol ac yn cyfarwyddo Llywodraeth Lafur y Cynulliad i adolygu’r cyllid ar fyrder.

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i ymrwymo i system o gyllido addysg ôl-16 na fydd yn achosi rhwystr ariannol i fyfyrwyr ac yn cadarnhau nad yw system sy’n cynnwys Ffioedd Ychwanegol i Fyfyrwyr yn dderbyniol yng Nghymru.

**Gwelliant 8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol sicrhau parch cydradd i gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau academaidd er mwyn bodloni anghenion Cymru.

**Gwelliant 9 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn mynegi pryder nad yw polisi addysg Cymru yn diwallu anghenion menter Cymru.

*E-bostiwyd copïau o Gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2005 at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Ionawr 2005*

Dogfennau Ategol
Gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2005 - *Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

**...............................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**…………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 26 Ionawr 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**